# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-03-07 (p9)

### Dyddiad y cyfarfod : Dydd Mercher, 7 Chwefror 2007
### Lleoliad : Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Costau ychwanegol posibl yr oedi wrth gwblhau rhaglen adsefydlu Bryn Neuadd.

#### Diben

Yn fy Adroddiad Gweinidogol i'r Pwyllgor fis Rhagfyr 2006, cyfeiriais at yr oedi wrth gwblhau rhaglen adsefydlu gofal cymdeithasol Ysbyty Bryn y Neuadd (papur HSS(2)-17-06 papur 1). Mae'r nodyn hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am gostau ychwanegol posibl yr oedi hwn.

#### Crynodeb/Argymhellion

Nid oes unrhyw argymhellion yn deillio o'r papur hwn.

#### Goblygiadau Ariannol

Ni ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol o ran y grantiau refeniw a roddir i awdurdodau lleol i dalu am ofal cymdeithasol y bobl sy'n cael eu hadsefydlu. Bydd yr oedi yn golygu na fydd awdurdodau lleol y Gogledd yn hawlio'u grant yn llawn yn 2006-07 a 2007-08 ond ni fydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y grant terfynol a ddyrennir ar ôl i'r rhaglen adsefydlu ddod i ben. Amcangyfrifir mai tua £8 miliwn fydd maint y dyraniad o 2008-09.

Gall yr oedi arwain at gostau ychwanegol o ganlyniad i'r canlynol:

- bydd rhai o villas yr ysbyty yn cael eu defnyddio am gyfnod hirach na'r disgwyl;
- rhaid parhau am gyfnod hirach na'r disgwyl â thaliadau grant i'r Ymddiriedoaleth ar gyfer costau rheoli'r prosiect a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun adsefydlu; ac
- oedi o ran parhau â'r gwaith neu gwblhau gwaith y prosiectau tai/addasu tai newydd.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl amcangyfrif beth fydd y costau ychwanegol hyn. Yn ôl y rhai sy'n rheoli'r cynllun adsefydlu byddant yn weddol isel a bydd modd talu amdanynt drwy ddefnyddio'r cyllidebau presennol heb achosi unrhyw oedi pellach.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau wedi gweld y papur hwn ac wedi nodi ei gynnwys (JT/SW 2960).

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur.

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyswllt: Alyson Collins, Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor,
Est : 5441